

## Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 5 o 6 – Eich hawl i  
fynychu digwyddiadau  
etholiadol allweddol

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents>.

# Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol .....	3
<b>Agor pleidleisiau post.....</b>	<b>3</b>
Beth yw pleidleisio drwy'r post? .....	3
Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud?.....	6
Dyletswydd i sicrhau cyfrinachedd.....	6
Pryd y caiff pleidleisiau post eu hagor a sut y byddwch yn gwybod pryd mae sesiwn agor yn cael ei chynnal? .....	7
Siart lif o broses y sesiynau agor .....	8
Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys ac a wrthodwyd.....	10
<b>Gorsafoedd pleidleisio.....</b>	<b>10</b>
Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?.....	10
Oriau agor gorsafoedd pleidleisio .....	11
Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio.....	11
Beth yw gwaith asiant pleidleisio? .....	12
Cynnal cyfrinachedd y bleidlais.....	12
Beth yw'r broses bleidleisio arferol?.....	13
Casglu papurau pleidleisio drwy'r post o'r orsaf bleidleisio .....	14
Rhifwyr.....	14
Beth sy'n digwydd ar ôl i'r gorsafoedd gau?.....	14
<b>Y cyfrif .....</b>	<b>15</b>
Beth yw gwaith asiant cyfrif?.....	15
Pryd a ble y cynhelir y cyfrif? .....	15
.....	18
.....	18
Pwy all fod yn bresennol pan ddyrennir seddau rhanbarthol?.....	21
Pryd a ble y dyrennir y seddau rhanbarthol? .....	21

# 2

Cyfrifo a dyrannu seddau rhanbarthol.....	21
Gwybodaeth atodol .....	23
<b>Papurau pleidleisio amheus .....</b>	<b>23</b>

# Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar fynychu prosesau etholiadol allweddol yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein **Dogfen drosolwg** am fanylion cyswllt.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at bob ymgeisydd. Cyfeiriwn at ymgeiswyr nas cynhwysir ar restr plaid yn yr etholiad rhanbarthol fel 'ymgeiswyr rhanbarthol unigol'.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau perthnasol drwy'r ddogfen hon, ond gallwch hefyd weld **amserlen etholiad** ar wahân yn nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan.

## Agor pleidleisiau post

### Beth yw pleidleisio drwy'r post?

1.1 Gall pobl 18 oed neu drosodd sydd wedi cofrestru i bleidleisio, neu sydd wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio, wneud cais i bleidleisio drwy'r post yn etholiadau Cynulliad

# 4

Cenedlaethol Cymru drwy gyflwyno cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Rhaid i'r cais ddod i law y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm ar yr 11eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (erbyn 5pm ar 19 Ebrill 2016). Gall y rhai a benodwyd i bleidleisio fel dirprwy ar ran rywun arall hefyd wneud cais am bleidlais bost drwy wneud cais erbyn 5pm ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn yr etholiad (erbyn 5pm ar 19 Ebrill 2016). Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw ddisgresiwn i ymestyn y dyddiad cau am ba reswm bynnag.

1.2 Caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon at etholwyr wythnos neu ddwy cyn y diwrnod pleidleisio. Anfonir y swp olaf o becynnau pleidleisio drwy'r post at etholwyr sydd wedi cofrestru'n agos at y dyddiad cau cofrestru pan fydd eu henwau wedi cael eu hychwanegu at ddiweddariad olaf y gofrestr ar y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (ar 27 Ebrill 2016).

1.3 Yna bydd etholwyr yn cwblhau ac yn dychwelyd eu pleidleisiau post at y Swyddog Canlyniadau Etholaethol cyn diwedd y cyfnod pleidleisio (10pm ar 5 Mai 2016).

## Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys?

- **Amlen A** yw'r amlen y mae'r etholwr yn dychwelyd ei bapurau pleidleisio ynddi. Fe'i nodir â'r llythyren 'A' a'r geiriau 'amlen papur pleidleisio'
- **Amlen B** - hon yw'r amlen y bydd yr etholwr yn ei defnyddio i ddychwelyd amlen y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post. Caiff ei marcio â'r llythyren 'B' a chyfeiriad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol
- Mae'r **Datganiad pleidleisio drwy'r post** yn cynnwys enw'r etholwr, nifer y papurau pleidleisio a anfonwyd ato, cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio drwy'r post a lle i'r etholwr lofnodi a nodi ei ddyddiad geni
- **Papur pleidleisio yr etholaeth**
- **Y papur pleidleisio rhanbarthol**

Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol wedi penderfynu anfon pleidleisiau post ar gyfer etholiad y Cynulliad yr un pryd â'r pleidleisiau post ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, neu unrhyw is-etholiadau eraill a gynhelir ar yr un diwrnod.

Os felly, bydd y pecyn pleidleisio drwy'r post hefyd yn cynnwys y papur pleidleisio ar gyfer y digwyddiad(au) etholiadol eraill.

## Presenoldeb ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr etholiad etholaethol

1.4 Gall ymgeiswyr etholaethol a'u hasiantiaid etholiad (neu unigolyn a benodwyd gan ymgeisydd i fod yn bresennol yn lle'r asiant etholiadol) fynychu sesiynau agor pleidleisiau post.

1.5 Gall is-asiant hefyd fod yn bresennol, ond dim ond os yw yno yn lle asiant etholiad.

1.6 Hefyd, gellir penodi asiantiaid i fynychu sesiynau agor pleidleisiau post yn benodol. Mae [Rhan 2a – Sefyll yn yr etholiad etholaethol](#) yn cynnwys gwybodaeth am sut i benodi'r asiantiaid hyn.

Ni chaiff ymgeiswyr nac asiantiaid fod yn bresennol pan **ddosberthir** pleidleisiau post.

## Presenoldeb ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr etholiad rhanbarthol

1.7 Gall ymgeiswyr rhanbarthol unigol a'u hasiantiaid etholiad (neu unigolyn a benodwyd gan ymgeisydd rhanbarthol unigol i fod yn bresennol yn lle'r asiant etholiadol) fynychu sesiynau agor pleidleisiau post.

1.8 Gall ymgeiswyr ar restr plaid, yr asiant etholiad ar gyfer y rhestr plaid (neu berson a benodwyd gan yr asiant etholiad neu Swyddog Enwebu'r plaid honno i fod yn bresennol yn lle'r asiant), fynychu sesiynau agor pleidleisiau post.

1.9 Gall is-asiant hefyd fod yn bresennol, ond dim ond os yw yno yn lle asiant etholiad.

1.10 Hefyd, gellir penodi asiantiaid i fynychu sesiynau agor pleidleisiau post yn benodol. Mae [Rhan 2b Sefyll yn yr etholiad rhanbarthol](#) yn cynnwys gwybodaeth am sut i benodi'r asiantiaid hyn.

# 6

## Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud?

1.11 Caniateir i asiant pleidleisio drwy'r post fynychu ac arsylwi sesiynau agor pleidleisiau post, a gaiff eu rhedeg gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol. Ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn eu cofnodion. Os na fydd yn cyfateb, caiff y bleidlais post ei gwrthod.

1.12 Mae gan asiant pleidleisio drwy'r post yr hawl i arsylwi, ond nid i ymyrryd â'r broses hon. Fodd bynnag, gall asiant pleidleisio drwy'r post wrthwynebu penderfyniad Swyddog Canlyniadau Etholaethol i wrthod pleidlais bost. Ni fydd yn effeithio ar benderfyniad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, ond bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cofnodi unrhyw wrthwynebiadau drwy roi'r geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' ar y datganiad pleidleisio drwy'r post.

1.13 Mae gan yr ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac unigolion eraill hynny a nodir ym mharagraffau **1.4** i **1.101.10 above** sydd â hawl i fynychu sesiynau agor pleidleisiau post yr hawl hefyd i wrthwynebu penderfyniad i wrthod.

1.14 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn egluro'r broses agor pleidleisiau post a gall ddsbarthu gwybodaeth am y gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar yr hyn y gall pobl sy'n mynychu sesiwn agor ei wneud a'r hyn na allant ei wneud. Dylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol wedi eu rhoi.

## Dyletswydd i sicrhau cyfrinachedd

1.15 Caiff papurau pleidleisio eu cadw â'u hwynebaw i law drwy gydol y broses o agor pleidleisiau post. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor geisio gweld sut y cafodd papurau pleidleisio unigol eu marcio. Felly, mae'n dilyn na chaniateir i bobl gadw cyfrif o faint o bapurau pleidleisio sydd wedi cael eu marcio.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y [gofynion cyfrinachedd pleidleisio drwy'r post yn Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#).

1.16 Hefyd, ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor pleidleisiau post geisio edrych ar farciau neu rifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn. Gall rhywun a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy anghyfyngedig, neu gall wynebu carchar am hyd at chwe mis.

## Pryd y caiff pleidleisiau post eu hagor a sut y byddwch yn gwybod pryd mae sesiwn agor yn cael ei chynnal?

1.17 Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

1.18 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol roi rhybudd o 48 awr o leiaf yn nodi pryd a ble y cynhelir y sesiynau, gan nodi faint o asiantiaid pleidleisio drwy'r post a ganiateir ym mhob sesiwn. Rhaid rhoi rhybudd i'r canlynol:

- pob ymgeisydd etholaethol
- ymgeisydd rhanbarthol unigol, ac
- asiant etholiadol pob plaid gofrestredig sy'n sefyll yn yr etholiad rhanbarthol

1.19 Bydd sesiwn agor derfynol ar ôl i'r bleidlais gau er mwyn agor unrhyw bleidleisiau post a gyflwynir â llaw i orsafoedd pleidleisio. Gellir cynnal y sesiwn hon yn y lleoliad cyfrif neu mewn lleoliad arall. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn hysbysu'r rhai a restrir uchod o leoliad yr agoriad terfynol.

# 8

## Siart lif o broses y sesiynau agor

1.20 Gellir crynhoi'r broses o agor pleidleisiau post fel a ganlyn:

- 1 Caiff pleidleisiau post eu cludo i'r sesiwn agor mewn blychau pleidleisio
- 2 Tynnir y prif amlenni (amlen B) allan a'u cyfrif
- 3 Nodir cyfanswm y prif amlenni ar ffurflen
- 4 Rhennir prif amlenni (amlen B) rhwng timau o staff agor
- 5 Bydd staff yn agor pob prif amlen (amlen B) ac yn tynnu'r datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlen y papur pleidleisio wedi'i selio (amlen A) allan
- 6 Bydd staff yn cadarnhau bod y rhifau ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhifau ar amlen A
- 7 Os bydd y rhifau'n cyfateb, bydd staff yn cadarnhau bod yr etholwr wedi darparu llofnod a dyddiad geni (heb gadarnhau mai rhai'r etholwr ydynt ar y cam hwn).  
Bydd datganiadau pleidleisio drwy'r post heb lofnod dyddiad geni yn peri i'r bleidlais bost gael ei gwrthod

Nid oes angen i nifer fach iawn o bleidleiswyr lofnodi eu datganiad pleidleisio drwy'r post. Bydd hepgoriad wedi'i roi i'r pleidleiswyr hyn am na allant lofnodi na darparu llofnod cyson oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu. Bydd y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir at etholwyr o'r fath yn egluro hyn.

8

Os bydd y datganiad neu amlen y papur pleidleisio ar goll, neu os na fydd y rhifau ar y datganiad ac amlen y papur pleidleisio yn cyfateb, caiff y ddogfen neu ddogfennau eu rhoi o'r neilltu, eu recordio a'u storio'n ddiogel mewn pecynnau

9

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol gadarnhau'r dyddiadau geni a'r llofnodion a ddarparwyd ar y datganiadau

10

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol fod yn fodlon bod y dyddiadau geni a'r llofnodion ar y datganiadau yn cyfateb i'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol ac y cedwir cofnod ohonynt

11

Ar ôl cadarnhau'r llofnodion a'r dyddiadau geni, caiff datganiadau pleidleisio drwy'r post eu symud o'r byrddau

12

Bydd staff yn agor amlenni'r papurau pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu'r papurau pleidleisio allan

13

Bydd staff yn gwirio bod y rhifau ar gefn y papurau pleidleisio yn cyfateb i'r rhifau ar amlenni'r papurau pleidleisio (amlen A)

14

Caiff y papurau pleidleisio dilys (nid y pleidleisiau) eu cyfrif a chaiff y cyfanswm ei gofnodi

15

Rhoddir pob papur pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio

Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cyfateb dogfennau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd ar wahân, ar yr amod bod y datganiad wedi'i gwblhau'n gywir ac wedi'i dderbyn

Rhaid cadw papurau pleidleisio â'u hwynebau i lawr drwy gydol y broses hon.

Papurau pleidleisio **dilys** yw'r papurau pleidleisio hynny y mae'r datganiad pleidleisio drwy'r post cysylltiedig wedi bodloni'r gwiriadau o ran llofnod a dyddiad geni.

Caiff papurau pleidleisio annilys eu rhoi o'r neilltu a'u storio'n ddiogel mewn pecynnau.

# 10

## Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys ac a wrthodwyd

1.21 Oni fydd hepgoriad wedi ei roi, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gwrthod datganiad pleidleisio drwy'r post os bydd llofnod a/neu ddyddiad geni ar goll neu os na fydd llofnod a/neu ddyddiad geni yn cyfateb a ddarparwyd yn flaenorol gan yr etholwr ac y cadwyd cofnod ohonynt.

1.22 Atodir datganiadau a wrthodwyd i'r papurau pleidleisio perthnasol neu amlenni'r papurau pleidleisio. Rhoddir y gair 'gwrthodwyd' arnynt ac fe'u dangosir i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol.

1.23 Gall asiantiaid wrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol i wrthod unrhyw bleidlais bost ac, os gwnânt hynny, ychwanegir y geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' at y datganiad. Fodd bynnag, mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn derfynol a bydd y bleidlais bost yn parhau i gael ei gwrthod.

## Gorsafoedd pleidleisio

1.24 Mae gan ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol neu, yn achos rhestr plaid, asiant etholiadol y blaid honno, yr hawl i arsylwi gweithrediadau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Gall asiantiaid etholiadol yr ymgeiswyr etholaethol a'r rhai rhanbarthol unigol fod yn bresennol hefyd.

1.25 Gall is-asiant fod yn bresennol, ond dim ond os yw yno yn lle asiant etholiadol.

1.26 Hefyd, gellir penodi asiantiaid i fynychu gorsafoedd pleidleisio yn benodol. I gael manylion am sut i benodi'r asiantiaid hyn, gweler [Rhan 2a - Sefyll yr etholiad etholaethol](#) neu [Ran 2b Sefyll yr etholiad rhanbarthol](#).

## Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

1.27 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis pleidleisio yn bersonol yn eu gorsaf bleidleisio hwy. Gall unrhyw un ar gofrestr

etholiadol yr orsaf pleidleisio fynd ati i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, oni bai:

- ei fod yn bleidleisiwr post cofrestredig
- ei fod yn bleidleisiwr drwy ddirprwy cofrestredig a bod ei ddirprwy eisoes wedi pleidleisio ar ei ran neu wedi gwneud cais i bleidleisio ar ei ran
- nad yw'n 18 mlwydd oed neu hŷn ar y diwrnod pleidleisio
- ei fod yn gofrestrdig fel un o arglwyddi'r deyrnas dramor neu'n etholwr dramor

1.28 Bydd etholwyr yn cael cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad yn dweud wrthynt ble a phryd y gallant bleidleisio. Nid oes angen i etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.

1.29 Ni ellir rhoi papur pleidleisio i bleidleiswyr post cofrestredig yn yr orsaf bleidleisio, ond gallant ddychwelyd eu pecyn pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau i'w gorsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Fel arall, gallant ddychwelyd eu pleidlais bost i rai gorsafoedd pleidleisio eraill yn yr etholaeth (bydd y swyddfa etholiadau yn gallu rhoi manylion iddynt) neu drwy law i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn y swyddfa etholiadau. Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio gael eu rhoi i staff gorsafoedd pleidleisio ac nid yn y blwch pleidleisio.

## Oriau agor gorsafoedd pleidleisio

1.30 Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor ar y diwrnod pleidleisio rhwng 7am a 10pm.

## Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio

1.31 Mewn hysbysiad cyhoeddus, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cyhoeddi lleoliad gorsafoedd pleidleisio erbyn 4pm ar y 18fed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn dydd Gwener 8 Ebrill). Bydd yn rhoi copi o'r hysbysiad hwn i asiantiaid etholiadol yn fuan wedi hyn.

Er y gall asiant pleidleisio arsylwi'r bleidlais, nid oes rhaid iddo fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio er mwyn i weithdrefnau pleidleisio a gweithdrefnau cysylltiedig gael eu cynnal.

Yr unig etholwyr sy'n gorfod dod â cherdyn pleidleisio gyda nhw i bleidleisio yw'r rhai sydd wedi cofrestru'n ddiennw oherwydd y risgiau i'w diogelwch.

Caiff unrhyw bleidleiswyr sy'n aros mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm pleidleisio, hyd yn oed os nad ydynt wedi cael papurau pleidleisio.

# 12

## Beth yw gwaith asiant pleidleisio?

1.32 Mae gan asiantiaid pleidleisio sawl rôl bwysig i'w chwarae ar y diwrnod pleidleisio. Gallant:

- fod yn bresennol yn eu gorsaf bleidleisio cyn iddi agor er mwyn gwyllo'r Swyddog Llywyddu yn dangos y blwch/blychau pleidleisio gwag cyn ei/eu selio
- canfod cambersonadu ac atal pobl rhag pleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad (heblaw fel dirprwyon)
- bod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papurau pleidleisio ar gais etholwr sydd angen cymorth i farcio ei bapurau pleidleisio oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu
- rhoi gwybod i ymgeiswyr neu asiantiaid etholiadol am unrhyw weithgareddau amhriodol a chadw nodiadau, os oes angen, er mwyn rhoi tystiolaeth yn y llys
- bod yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio pan gaiff y pecynnau amrywiol o ddogfennau eu selio
- atodi eu sêl i unrhyw becynnau a drefnir gan y Swyddog Llywyddu ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, gan gynnwys y blychau pleidleisio

1.33 Gall ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac asiantiaid etholiadol hefyd wneud unrhyw beth y mae gan asiant pleidleisio yr hawl i'w wneud.

## Cynnal cyfrinachedd y bleidlais

1.34 Mae gan unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio ddyletsydd i gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Yn benodol, rhaid sicrhau na chaiff y wybodaeth ganlynol ei datgelu:

- enw neu rif etholiadol y rhai sydd wedi neu heb bleidleisio
- y rhif neu'r marc adnabod unigryw arall ar y papurau pleidleisio

1.35 Hefyd, rhaid i unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio sicrhau nad yw'n ceisio canfod sut mae pleidleisiwr wedi pleidleisio na phwy y mae ar fin pleidleisio drosto.

1.36 Gall asiant pleidleisio farcio ar ei gopi ef o'r gofrestr o etholwyr y pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapurau pleidleisio. Os bydd yr asiant pleidleisio yn gadael yr

**Cambersonadu** - pan fydd unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug).

Ni ellir rhoi seliau asiantiaid pleidleisio ar flychau pleidleisio ar ddechrau'r cyfnod pleidleisio nac yn ystod y cyfnod hwnnw.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y [gofynion cyfrinachedd sydd ar gael yn Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#).

orsaf bleidleisio yn ystod yr oriau pleidleisio, bydd angen iddo adael y copi wedi'i farcio o'r gofrestr yn yr orsaf bleidleisio er mwyn sicrhau na thorrir gofynion cyfrinachedd.

1.37 Gall unrhyw un y'i dyfernir yn euog o dorri'r gofynion cyfrinachedd wynebu dirwy anghyfyngedig, neu hyd at chwe mis y carchar.

## Beth yw'r broses bleidleisio arferol?

1.38 Mae'r broses bleidleisio arferol mewn gorsaf bleidleisio yn syml a gellir ei chrynhof fel a ganlyn:

### Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn...

- gofyn am enw a chyfeiriad y pleidleisiwr ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gymwys i bleidleisio
- marcio llinell syth yn erbyn cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr
- dweud rhif ac enw'r etholwr yn uchel
- ysgrifennu rhif yr etholwr ar restr wrth ymyl rhifau'r papurau pleidleisio i'w dosbarthu
- gwneud yn siŵr bod y papurau pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. cod bar neu ddyfrnod)
- plygu'r papurau pleidleisio, a'u rhoi i'r pleidleisiwr **heb eu plygu** fel y gall weld yr holl opsiynau ar y papurau pleidleisio

### Bydd y pleidleisiwr yn...

- marcio'r papurau pleidleisio yn breifat yn y bwth pleidleisio
- plygu'r papurau pleidleisio ac yn dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papurau pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu
- yn rhoi'r papurau pleidleisio yn y blwch/blychau pleidleisio ac yn gadael yr orsaf bleidleisio

1.39 Gall y Swyddog Llywyddu helpu unrhyw un na all farcio'r papurau pleidleisio ei hun. Fel arall, gall pleidleisiwr ddod â rhywun gydag ef y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i'w helpu i farcio ei bleidlais. Rhaid i'r sawl sy'n helpu'r pleidleisiwr fod yn berthynas agos dros 18 oed neu'n rhywun

Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn dosbarthu'r papurau pleidleisio ar gyfer pob digwyddiad etholiadol a gynhelir ar 5 Mai 2016, gan gynnwys yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau.

Gall un blwch pleidleisio gael ei ddefnyddio ar gyfer pob etholiad a ymleddir neu gall blychau pleidleisio gwahanol gael eu defnyddio ar gyfer etholiadau gwahanol a ymleddir.

Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn dosbarthu'r papurau pleidleisio ar gyfer pob digwyddiad etholiadol a gynhelir ar 5 Mai 2016.

Gall blychau pleidleisio gwahanol gael eu defnyddio ar gyfer etholiadau gwahanol a ymleddir.

# 14

sydd â hawl i bleidleisio yn yr etholiad. Ni all rhywun helpu mwy na dau bleidleisiwr yn yr etholiad.

## Casglu papurau pleidleisio drwy'r post o'r orsaf bleidleisio

1.40 Gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol drefnu i unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd gan etholwyr mewn gorsaf bleidleisio gael eu casglu drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd mewn pecyn cyn iddynt gael eu casglu. Gall unrhyw asiantiaid sy'n bresennol ychwanegu eu sêl eu hunain at y pecyn hefyd, os dymunant.

## Rhifwyr

1.41 Pobl sy'n sefyll y tu allan i fannau pleidleisio ac yn cofnodi rhifau etholwyr sydd wedi pleidleisio yw rhifwyr. Wedyn, gallant nodi cefnogwyr tebygol nad ydynt wedi pleidleisio a'u hannog i wneud hynny cyn i'r orsaf bleidleisio gau.

1.42 Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol ac mae gan bleidleisiwyr yr hawl i wrthod rhoi unrhyw wybodaeth iddynt.

1.43 Rydym wedi llunio taflen ffeithiau o'r [hyn y dylai ac na ddylai rhifwyr ei wneud](#), yn ogystal â [chanllawiau mwy cynhwysfawr ar weithgareddau rhifwyr](#). Nod y canllawiau yw sicrhau bod pawb yn gwybod yn union beth sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol a'u nod yw hyrwyddo safonau ymddygiad priodol. Gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol roi ei ganllawiau ei hun i rifwyr hefyd.

Mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol am y modd y cynhelir yr etholiad. Os yw gweithgareddau'r rhifwyr yn achos pryder iddynt, gallant ofyn i'r rhifwyr gydymffurfio â'r cod ymddygiad cytûn neu adael y man pleidleisio.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i'r gorsafoedd gau?

1.44 Pan fydd pob pleidleisiwr a gafodd papurau pleidleisio wedi pleidleisio, caiff y blwch/blychau pleidleisio ei/eu selio gan y Swyddog Llywyddu a gall asiantiaid pleidleisio, ymgeiswyr neu asiantiaid etholiadol ychwanegu eu sêl eu hunain os dymunant. Ar ôl i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r holl waith papur, caiff y blychau pleidleisio wedi'u selio eu cymryd i leoliad y cyfrif.

## Y cyfrif

1.45 Mae gan ymgeiswyr (boed yn ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol neu'r rheini sydd ar restr plaid) ac un unigolyn arall a ddewiswyd ganddynt, yn ogystal ag asiantiaid etholiadol yr hawl i fynychu'r cyfrif. Mae gan is-asiant yr hawl i fynychu'r cyfrif yn lle asiant etholiadol.

1.46 Hefyd, gellir penodi asiantiaid i fynychu'r cyfrif yn benodol. I gael manylion am sut i benodi'r asiantiaid hyn, gweler [Rhan 2a - Sefyll yr etholiad etholaethol](#) neu [Ran 2b Sefyll yr etholiad rhanbarthol](#).

### Beth yw gwaith asiant cyfrif?

1.47 Mae gan asiantiaid cyfrif nifer o rolau pwysig i'w chwarae yn y cyfrif:

- Maent yn arsylwi'r broses gyfrif ac yn sicrhau ei bod yn gywir.
- Gallant dynnu sylw unrhyw bapurau pleidleisio amheus at sylw'r staff cyfrif.
- Os byddant yn anghytuno â phenderfyniad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol i wrthod papur pleidleisio, gallant ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol farcio ar y papur pleidleisio "gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod".
- Os caiff y broses gyfrif ei hatal am unrhyw reswm neu os bydd toriad yn y gweithrediadau, gall asiantiaid cyfrif ychwanegu eu seliau pan fydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn selio'r blychau pleidleisio a'r amlenni.

1.48 Gall ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol hefyd wneud unrhyw beth y caniateir i asiant cyfrif ei wneud.

### Pryd a ble y cynhelir y cyfrif?

1.49 Mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol am gadarnhau a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd yn ei etholaeth ar gyfer yr etholiadau etholaethol a rhanbarthol. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn rhoi gwybod am yr union amser a lleoliad.

# 16

1.50 Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol wneud trefniadau i gyfrif y pleidleisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.

1.51 Er ei bod yn bwysig sicrhau bod y broses gyfrif yn cael ei chynnal yn brydlon, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y broses honno yn rhoi canlyniad cywir y gall pawb deimlo'n hyderus yn ei gylch.

1.52 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn hysbysu'r ymgeiswyr rhanbarthol unigol a'r asiantiaid etholiad ar gyfer y rhestrau plaid rhanbarthol o'r amser a'r lleoliad ar gyfer dyrannu'r seddau rhanbarthol. I gael rhagor o wybodaeth am ddyrannu seddau rhanbarthol gweler paragraff **1.61** ymlaen.

## Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif

### Cofnodi blychau pleidleisio

1 Bydd staff y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn anfon y blychau pleidleisio o'r gorsafoddd pleidleisio i leoliad y cyfrif

2 Bydd staff y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cofnodi blychau pleidleisio wrth iddynt gyrraedd lleoliad y cyfrif

### Dilysu

3 Caiff blychau pleidleisio eu gwagio ar fyrddau a dangosir y blychau gwag i asiantiaid

4 Bydd staff yn cyfrif y papurau pleidleisio etholaethol a rhanbarthol o bob gorsaf pleidleisio, gan eu cadw wyneb i fyny

5 Bydd staff yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddisbarthwyd, fel y cofnodir ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddogion Llywyddu

6 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn pennu'r rhesymau dros unrhyw anghysondebau ac yn llunio cyfanswm wedi ei ddilysu ar gyfer papurau pleidleisio etholaethol a phapurau pleidleisio rhanbarthol

7 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn llunio datganiad o'r broses ddilysu. Gall asiantiaid weld neu gofio'r datganiad hwn os dymunant

Ym mis Mai 2016, caiff etholiad y Cynulliad ei gyfuno â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. Caiff pob blwch pleidleisio ar gyfer pob etholaeth ei ddilysu cyn i unrhyw ganlyniadau gael eu datgan.

Gall un blwch pleidleisio gael ei ddefnyddio ar gyfer pob etholiad a ymleddir neu gall blychau pleidleisio gwahanol gael eu defnyddio ar gyfer etholiadau gwahanol a ymleddir. Sut bynnag, caiff papurau pleidleisio eu rhannu yn etholiadau gwahanol a ymleddir.

Bydd unrhyw bapur pleidleisio a ganfyddir yn y blwch pleidleisio 'anghywir' yn ddilys o hyd a chaiff ei symud i'r blwch cywir yn ystod y broses ddilysu.

# 18

## Cyfrif y pleidleisiau

Mae'r prosesau ar gyfer cyfrif y papurau pleidleisio etholaethol a'r papurau pleidleisio rhanbarthol yr un peth, er y caiff y canlyniadau o'r etholaeth eu trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol er mwyn cyfrifo'r canlyniadau rhanbarthol a dyrannu seddau rhanbarthol.

8

Bydd staff yn rhannu'r papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd neu blaid

9

Bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid

10

Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn rhannu'r canlyniad etholaethol dros dro/cyfansymiau lleol rhanbarthol a gall yr ymgeiswyr a'r asiantiaid ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ailgyfrif y pleidleisiau

11

Gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol wrthod ailgyfrif os bydd yn credu bod y cais yn afresymol

Dim ond ar lefel etholaethol y gellir gwneud cais am ailgyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr etholiad etholaethol a'r etholiad rhanbarthol. Pan fydd y cyfansymiau rhanbarthol ar gyfer yr etholaeth wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ac wedi cael eu cymeradwyo, ni ellir ailgyfrif.

## Beth os nad yw'r bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?

1.53 Ni chaiff papur pleidleisio ei gyfrif:

- os nad yw wedi ei farcio
- os nad yw'n cynnwys y marc swyddogol
- os yw'n cynnwys pleidleisiau ar gyfer mwy nag un ymgeisydd neu blaid
- os yw'n cynnwys unrhyw farc neu ysgrifen a all enwi'r pleidleisiwr
- os nad yw'n nodi bwriad y pleidleisiwr yn glir

1.54 Ar gyfer yr etholiad etholaethol a'r etholiad rhanbarthol, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd am y rhesymau hyn.

1.55 Os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir ar bapur pleidleisio ac na all unrhyw farc neu ysgrifen ei enwi, ni fydd yn ddi-rym os yw pleidlais wedi ei marcio:

- rywle arall yn hytrach na'r man priodol
- mewn ffordd arall heblaw croes (e.e. tic)
- drwy fwy nac un marc

1.56 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol roi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio a wrthodir. Rhaid iddo ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod" os yw asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol. I gael rhagor o fanylion am y broses o ddyfarnu papurau pleidleisio amheus, gweler paragraff **1.73**.

## Datgan canlyniad yr etholaeth

1.57 Wrth ddod â'r broses gyfrif etholaethol i ben, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cyhoeddi bod yr ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael ei ethol. Os bydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr etholaethol yr un faint o bleidleisiau, ac y byddai pleidlais arall ar gyfer y naill neu'r llall yn golygu y câi ei ethol, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol benderfynu rhyngddynt drwy ddewis rhwng ymgeiswyr ar hap. Os felly, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn penderfynu ar y dull o ddewis ymgeiswyr ar hap.

1.58 Bydd hefyd yn llunio datganiad yn dangos cyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd ar gyfer pob ymgeisydd, enw eu plaid (os yw'n gymwys), a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd.

Bydd rhai Swyddogion Canlyniadau yn caniatáu i ymgeiswyr annerch ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan. Os ydych yn ymgeisydd etholaethol, cadarnhewch y trefniadau gyda'ch Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

## Trosglwyddo canlyniad yr etholaeth a chyfansymiau rhanbarthol lleol

1.59 Pan fydd canlyniad yr etholaeth wedi cael ei ddatgan a'r pleidleisiau rhanbarthol wedi eu cyfrif, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o ganlyniad yr etholaeth a'r cyfansymiau ar gyfer yr etholiad rhanbarthol yn yr etholaeth. Pan fydd yn fodlon bod y cyfansymiau rhanbarthol yn gywir, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn awdurdodi'r cyfansymiau hynny a bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn eu cyhoeddi.

1.60 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn defnyddio'r canlyniadau etholaethol a'r cyfansymiau ar gyfer yr etholiad rhanbarthol o'r etholaethau ar draws y rhanbarth i gyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu'r seddau.

Er mwyn cael manylion yr hyn a fydd yn digwydd i ddogfennau etholiadol ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan gweler:

[Rhan 6 - Ar ôl datgan y canlyniadau](#)

## Dyrannu'r seddau rhanbarthol

1.61 Pan fydd y cyfansymiau ar gyfer yr etholiad rhanbarthol wedi eu hawdurdodi, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn eu coladu a'u hadio at ei gilydd i gyfrifo cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd rhanbarthol unigol yn y rhanbarth etholiadol (y 'canlyniad rhanbarthol').

### Pwy all fod yn bresennol pan ddyrennir seddau rhanbarthol?

1.62 Gall ymgeiswyr rhanbarthol unigol, ymgeiswyr rhestr plaid ac un unigolyn arall a ddewiswyd ganddynt, yn ogystal ag asiantiaid etholiadol a chyfrif ar gyfer ymgeiswyr rhanbarthol unigol a rhestrau plaid fod yn bresennol wrth ddyrannu seddau rhanbarthol. Gall rhywun sy'n bresennol yn lle'r asiant etholiad hefyd fynychu (gallai hyn fod yn is-asiant).

### Pryd a ble y dyrennir y seddau rhanbarthol?

1.63 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn hysbysu ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac asiant etholiadol pob rhestr plaid o'r amser a'r lleoliad lle y caiff y seddau rhanbarthol eu dyrannu. Ni ellir dyrannu'r seddau nes bod pob un o'r canlyniadau etholaethol yn y rhanbarth wedi eu datgan.

### Cyfrifo a dyrannu seddau rhanbarthol

1.64 Dyrennir pedwar sedd i bob rhanbarth. Fformwla fathemategol (a elwir yn 'd'Hondt addasedig') fydd yn pennu pwy sy'n cael y seddau hynny.

1.65 Yn y fformwla hon caiff nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad rhanbarthol ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd unigol ei rhannu â nifer y seddau etholaethol a enillwyd ganddynt, ac un ychwanegol.

## Cyfanswm nifer y pleidleisiau a gafwyd gan y blaid/ymgeisydd unigol

### Nifer y seddau y mae'r blaid/ymgeisydd unigol wedi eu hennill yn yr etholiad etholaethol + 1

1.66 Dyrennir y sedd ranbarthol gyntaf i'r blaid neu'r ymgeisydd sydd â'r ffigur mwyaf ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyfrifo'r swm hwn.

1.67 Er mwyn dyrannu'r ail i'r bedwaredd sedd ranbarthol, ailadroddir y cyfrifiad, ond bob tro rhaid sicrhau mai'r nifer y rhennir y ffigur pleidleisio rhanbarthol â hi fydd cyfanswm nifer y seddau a enillwyd eisoes (rhanbarthol ac etholaethol), ac un ychwanegol.

1.68 Caiff y seddi y mae gan bob plaid wleidyddol hawl iddynt eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr plaid.

1.69 Pan fydd sedd wedi'i dyrannu i ymgeisydd unigol, neu pan fydd yr un faint o seddau ag sydd o ymgeiswyr wedi'u dyrannu i blaid, caiff eu henwau eu tynnu o'r cyfrifiad ar gyfer dyrannu'r seddau sy'n weddill.

### Ailgyfrifo

1.70 Gall ymgeiswyr rhanbarthol unigol a'r asiant etholiadol ar gyfer pob rhestr plaid (neu, yn absenoldeb yr asiant, un o'r ymgeiswyr ar y rhestr) ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ailgyfrifo'r broses o ddyrannu seddau. Fodd bynnag, gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wrthod gwneud hynny os bydd yn credu bod y cais yn afresymol.

1.71 Nid oes darpariaeth ar y cam hwn i ofyn i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif.

### Datgan canlyniadau rhanbarthol

1.72 Pan fydd pob sedd wedi'i dyrannu, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn datgan ac yn rhoi gwybod am y canlyniadau rhanbarthol.

Bydd rhai Swyddogion Canlyniadau yn caniatáu i ymgeiswyr annerch ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan. Cadarnhewch y trefniadau penodol gyda'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

# Gwybodaeth atodol

## Papurau pleidleisio amheus

1.73 Er mwyn helpu Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, rydym wedi llunio canllawiau ar sut i ddyfarnu pleidleisiau ar bapurau pleidleisio a all ymddangos yn amheus. Ceir y canllawiau hyn yn ein llyfryn [Ymdrin â phapurau pleidleisio amheus](#) y gall Swyddogion Canlyniadau Etholaethol gyfeirio atynt yn ystod y broses gyfrif. Rydym hefyd wedi llunio mat bwrdd o bleidleisiau a ganiateir a rhai a wrthodir yn yr [etholiad etholaethol](#) a'r [etholiad rhanbarthol](#) y gellir cyfeirio ato'n gyflym.

1.74 Mae'r enghreifftiau a roddir ynddynt yn seiliedig ar reolau'r etholiad. Noder, er eu bod yn darparu canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau Etholaethol unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud penderfyniad ar bapurau pleidleisio unigol. Bydd eu penderfyniad i wrthod papur pleidleisio penodol yn ystod y broses gyfrif neu ailgyfrif yn derfynol a dim ond ar ôl datgan y canlyniad y gellir ei adolygu mewn deiseb etholiadol. I gael rhagor o fanylion am ddeisebau etholiadol, gweler [Rhan 6 - Ar ôl datgan y canlyniadau](#).